Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Cynllun Hawliau Plant Drafft

Trefniadau ar gyfer rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yng ngwaith Llywodraeth Cymru ar bolisi a deddfwriaeth.

Cymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar [ ]

# Cynllun Hawliau Plant Drafft

**Cynulleidfa**

Plant a phobl ifanc, Comisiynydd Plant Cymru, Cyrff Anllywodraethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyrff Cyhoeddus, Y Ddraig Ffynci (Cynulliad Plant a Phobl Ifanc i Gymru).

**Trosolwg**

Cafodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' gefnogaeth unfrydol ar draws y pleidiau pan basiwyd ef yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011. Cafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011 a daeth i rym ar 16 Mai 2011.

Mae'r Mesur yn cryfhau ac yn adeiladu ar ddull Llywodraeth Cymru o lunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru ar sail hawliau.

Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yn yr CCUHP a'i brotocolau dewisol. Bydd y dyletswyddau sydd yn y Mesur yn cael eu gweithredu mewn dau gam;

- O 1 Mai 2012 hyd 30 Ebrill 2014, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i'r hawliau yn yr CCUHP wrth wneud penderfyniadau ynghylch polisïau neu ddeddfwriaeth newydd arfaethedig, neu ynghylch adolygu neu newid polisïau sydd eisoes mewn bod.
- O 1 Mai 2014, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i'r hawliau yn yr CCUHP pa bryd bynnag y byddant yn defnyddio unrhyw rai o'u pwerau neu eu dyletswyddau cyfreithiol.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn: http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents

Dyma wefannau eraill sy'n darparu gwybodaeth;

- CCUHP – Gwneud Pethau'n Iawn http://www.uncrcletsgetitright.co.uk/
- Y Comisiynydd Plant http://www.childcomwales.org.uk/
- Llais Disgyblion Cymru http://www.PupilVoiceWales.org.uk
- Y Ddraig Ffynci http://www.funkydragon.org
- Achub y Plant http://www.savethechildren.org.uk
- CLIC: Y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc http://www.cliconline.co.uk
- Plant yng Nghymru http://www.childreninwales.org.uk/
- Barnardo's http://www.barnados.org.uk/wales
- UNICEF Unite for Children http://www.unicef.org/crc/

ISBN 978 0 7504 7281 2
© Hawlfraint y Goron 2012
WG15246

**Manylion cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r canlynol:
Tîm Gweithredu
Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 1662

e-bost: childrenandyoungpeoplesrights@wales.gsi.gov.uk

## Rhagair y Gweinidog

Rydym ni, Weinidogion Cymru, wedi nodi yn ein Rhaglen Lywodraethu[1] y gwahaniaethau yr ydym am eu gwneud i fywydau pobl Cymru: pobl iach sy'n byw bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy llewyrchus a blaengar; cymunedau mwy diogel a chydlynol, gyda llai o dlodi a mwy o gydraddoldeb; amgylchedd glân gyda defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol a chymdeithas â gwir ymdeimlad â'i diwylliant a'i hanes.

Mae hyn wrth gwrs yn berthnasol i blant a phobl ifanc a chredaf fod Gweinidogion wedi dangos eu hymrwymiad dro ar ôl tro i wella bywydau plant a phobl ifanc, i ddarparu cyfleoedd a phrofiadau i'w galluogi i dyfu, ac i roi cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Ein gweinyddiaeth ni yw'r gyntaf yn y DU i gynnwys yr CCUHP mewn cyfraith ddomestig, ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn enghraifft o'n hymrwymiad ni fel Gweinidogion i osod hawliau plant a phobl ifanc yng nghalon pob peth a wnawn.

Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd arnom ni fel Gweinidogion i roi sylw dyledus i'r CCUHP, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau ein bod yn cydymffurfio â hi. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i ni drosglwyddo'n cyfrifoldeb i eraill, er enghraifft i'n staff. Rydym wedi nodi'n glir yn ein Maniffesto ein hymrwymiad i sicrhau bod y Mesur yn cael ei weithredu'n llawn ym mholisïau a rhaglenni'r llywodraeth drwy gydol y weinyddiaeth hon.

Rydym yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yng nghyswllt y ddyletswydd, a phan fyddwn yn cyflwyno'n hadroddiadau rheolaidd ar gydymffurfiaeth i'r Cynulliad, bydd yn rhaid i ni egluro'r hyn a wnaethom. Rwy'n hapus i wneud hynny am fy mod yn credu bod y ddyletswydd hon yn mynd i arwain yn y pen draw at well gwasanaethau, gwell adnoddau a gwell darpariaeth i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Ein nod yw sicrhau diwylliant yn Llywodraeth Cymru lle y mae Gweinidogion a staff yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o hawliau plant, ac yn mynd ati'n fwriadus i'w hystyried yn eu holl waith.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'n Cynllun Hawliau Plant cyntaf. Mae'n nodi'r camau ymarferol yr ydym wrthi'n eu sefydlu a'r hyn y bwriadwn ei ddatblygu ar gyfer y dyfodol, fel y gallwn wneud cynnydd go iawn tuag at ein nod. Fel y Dirprwy Weinidog Plant, mae datblygu'r Cynllun hwn yn rhan o'm portffolio i. Rwyf wedi ymrwymo i gydweithio â'm cyd-Weinidogion i sicrhau ei lwyddiant ar draws Llywodraeth Cymru.



[1] http://wales.gov.uk/about/programmeforgovernment/?lang=cy

## Cynllun Hawliau Plant Drafft

### Cyflwyniad

Cafodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' (y cyfeirir ato fel "y Mesur" yng ngweddill y ddogfen hon) ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011 a'i gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor ar 16 Mawrth 2011. Mae'r Mesur yn ymgorffori ystyriaeth o'r CCUHP, a'r Protocolau Dewisol, yng nghyfraith Cymru.

Mae'r CCUHP[2] yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant. Cymeradwywyd testun y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn gan Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig ar 20 Tachwedd 1989.

Ar 16 Rhagfyr 1991 cadarnhaodd Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yr CCUHP, a daeth i rym yn y Deyrnas Unedig ar 15 Ionawr 1992. Mae'r Deyrnas Unedig hefyd wedi cadarnhau dau 'Brotocol Dewisol' i'r CCUHP.[3]

Mae'n ofynnol o dan erthygl 44(1)(b) o'r Confensiwn i wledydd sydd wedi ei gadarnhau gyflwyno bob 5 mlynedd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("y Pwyllgor") adroddiad sy'n rhoi manylion y cynnydd a wnaed ganddynt tuag at weithredu'n llawn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. Caniateir hefyd i'r gwledydd hyn ymddangos gerbron y Pwyllgor.

Yn 2002 aeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ati i ddatblygu'r Saith Nod Craidd[4] ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd y rhain yn crynhoi'r CCUHP ac yn darparu sylfaen ar gyfer cynllunio a phenderfynu ar flaenoriaethau ac amcanion yn genedlaethol ac yn lleol.

Yn Ionawr 2004 mabwysiadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Confensiwn yn sylfaen ar gyfer ei bolisïau ynghylch plant a phobl ifanc 0-25 oed (gan gynnwys y rhai 25 oed), gan atgyfnerthu'r Saith Nod Craidd.

Daeth yr ymrwymiad i'r Confensiwn ac i'r Saith Nod Craidd yn ymrwymiad i Weinidogion Cymru yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru.

Wrth ddatblygu ei pholisïau ynghylch plant a phobl ifanc yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at ddau grŵp oedran. Cyfeirir at y sawl sydd dan 11 oed fel "plant", a chyfeirir at y sawl sydd rhwng 11 a 25 oed fel "pobl ifanc".

[2] http://www2.ohchr.org/english/law/crc.htm

[3] http://www2.ohchr.org/english/law/crc-sale.htm; http://www2.ohchr.org/english/law/crc-conflict.htm

[4] http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/sevencoreaims/?lang=cy

Fodd bynnag, yn y Mesur, cyfeirir at bobl dan 18 oed fel "plant" a chyfeirir at bobl 18-24 oed (gan gynnwys y rhai 24 oed) fel "pobl ifanc". Gwnaethpwyd hynny er mwyn bod yn gyson â'r Confensiwn ac â Mater 15.6 yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a roes fod i'r cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer y Mesur hwn.

Caiff y Cynllun Hawliau Plant ei wneud o dan adran 2 o'r Mesur. Gellir gweld manylion llawn yr adran hon a gweddill y Mesur drwy fynd i:

**http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/section/2**

## Beth yw Cynllun Hawliau Plant?

1 Mai 2012 fydd y tro cyntaf y bydd unrhyw lywodraeth yn y Deyrnas Unedig wedi bod dan ddyletswydd i roi sylw dyledus i hawliau plant.

Mae'r Cynllun Hawliau Plant hwn yn egluro'r trefniadau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu sefydlu i sicrhau eu bod hwy, a staff Llywodraeth Cymru, yn cydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir arnynt gan y Mesur i "roi sylw dyledus" i hawliau plant wrth baratoi neu ddatblygu deddfwriaeth newydd arfaethedig, polisïau newydd arfaethedig ac unrhyw adolygiad o, neu newid i, bolisi sydd eisoes mewn bod (ceir mwy o fanylion isod).

Mae'r ddogfen yn nodi'n fanwl sut y bydd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio'r Cynllun Hawliau Plant hwn o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.[5]

## Y Ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i ofynion yr CCUHP. Yn y ddogfen hon, pan soniwn am Weinidogion Cymru yn rhoi sylw dyledus i'r CCUHP, cynhwyswn roi sylw dyledus i'r Protocolau Dewisol; felly, bydd gan Weinidogion ddyletswydd i roi sylw dyledus:

- i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- i'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar dynnu plant i mewn i wrthdrawiadau arfog, ac
- i'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

O 1 Mai 2012 hyd at a chan gynnwys 30 Ebrill 2014, bydd y ddyletswydd sylw dyledus yn berthnasol i benderfyniadau Gweinidogion Cymru ynghylch unrhyw un o'r canlynol:

a) deddfwriaeth newydd arfaethedig;

b) polisïau newydd arfaethedig;

[5] Adran 2(1), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

c) adolygu neu newid polisi sydd eisoes mewn bod.[6]

O 1 Mai 2014, bydd y ddyletswydd sylw dyledus yn berthnasol i holl benderfyniadau a chamau gweithredu Gweinidogion Cymru.[7]

Bydd Cynllun Hawliau Plant newydd yn cael ei baratoi erbyn Mai 2014, yn nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r ddyletswydd ehangach hon. Byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwn o'r Cynllun hwn wrth baratoi ein cynllun nesaf. Byddwn yn cynnwys eraill wrth ei baratoi ac yn ymgynghori â'r cyhoedd fel y gwnaethom y tro hwn. Bydd yn rhaid i'r Cynllun newydd gael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr un modd â'r Cynllun hwn.

Mae'r ddyletswydd sylw dyledus yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried yr CCUHP wrth wneud eu penderfyniadau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt sicrhau nad ydynt yn torri'r CCUHP, ac yn ofynnol iddynt ystyried sut y gallent roi effaith bellach i hawliau'r CCUHP. Wrth ystyried rhoi effaith bellach i hawliau'r CCUHP, bydd angen iddynt bwyso a mesur yr holl faterion sy'n berthnasol i'r penderfyniad y maent yn ei wneud.

## Sut y bydd Gweinidogion Cymru yn cyflawni hyn?

Isod rydym wedi nodi'r trefniadau penodol sy'n cael eu rhoi ar waith gan bobl benodol i sicrhau bod Gweinidogion a staff Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus.

### Cyfrifoldebau a Rolau Gweinidogion Cymru

Mae'r Mesur yn gosod y ddyletswydd sylw dyledus ar Weinidogion Cymru. Rhaid iddynt roi sylw dyledus i'r CCUHP wrth wneud penderfyniadau ynghylch deddfwriaeth newydd arfaethedig, polisïau newydd arfaethedig ac unrhyw waith i adolygu neu newid polisi sydd eisoes mewn bod.

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu iddynt drosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i eraill, er enghraifft i staff Llywodraeth Cymru.

Gweinidogion Cymru hefyd sy'n gyfrifol am y trefniadau a amlinellir yn y Cynllun hwn, ac am sicrhau bod y trefniadau hynny'n gweithio'n effeithiol. Maent yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yng nghyswllt y ddyletswydd, a phan fyddant yn cyflwyno'u hadroddiadau rheolaidd ar gydymffurfiaeth i'r Cynulliad, bydd yn rhaid iddynt egluro'r hyn a wnaethpwyd ganddynt.

Fodd bynnag, mae gan staff Llywodraeth Cymru ran bwysig iawn yn y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth a pholisi, am nad yw'n bosibl i Weinidogion ddatblygu'r holl fanylion eu hunain. Bydd staff Llywodraeth Cymru yn rhoi dewisiadau a chyngor i

[6] Adran 1(2), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

[7] Adran 1(1), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Weinidogion ynghylch y polisïau a'r ddeddfwriaeth y maent am eu datblygu, a bydd Gweinidogion yn gwneud penderfyniadau ynghylch yr hyn a gaiff ei gyflawni. Yna bydd staff Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y polisïau neu'r ddeddfwriaeth nes bod y Gweinidogion yn fodlon arnynt. Felly, bydd Gweinidogion yn disgwyl bod eu staff wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r CCUHP cyn rhoi dewisiadau a chyngor iddynt.

Wedi dweud hynny, y Gweinidogion a neb arall sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu penderfyniadau'n rhoi sylw dyledus i'r CCUHP. Rhaid iddynt fod yn gwbl ymwybodol o'r ddyletswydd wrth wneud eu penderfyniadau.

Yn nes ymlaen yn y ddogfen hon, byddwn yn egluro'r camau y bydd angen i staff eu cymryd i ystyried yr CCUHP.

<u>Cyfrifoldebau a Rolau'r Grŵp Llywio Gweithredu</u>

Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o bob maes yn Llywodraeth Cymru sydd â Chyfarwyddwr Cyffredinol, a'i brif swyddogaeth yw goruchwylio'r gwaith o weithredu'r Cynllun hwn ar draws y meysydd hynny. Bydd aelodau'r grŵp yn chwarae rhan bwysig o ran codi ymwybyddiaeth o'r Mesur ar draws meysydd eu Cyfarwyddwyr Cyffredinol, a byddant yn 'Hyrwyddwyr' i'r Mesur ac yn hybu hawliau plant ar draws eu maes cyfrifoldeb.

Mae'r grŵp hwn hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r Tîm Gweithredu i helpu i lywio'u gwaith ac i'w helpu i wella'r prosesau a ddefnyddir i weithredu'r Mesur. Maent hefyd yn dod ag adborth o'u maes ar weithredu'r Mesur, ac yn rhannu gwybodaeth am unrhyw arferion da neu anawsterau.

<u>Cyfrifoldebau a Rolau'r Tîm Gweithredu</u>

Mae tîm o staff yn Is-adran Plant, Teuluoedd a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru sy'n arwain y gwaith o weithredu'r Mesur. Mae eu gwaith yn cynnwys datblygu prosesau mewnol a fydd yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth a chyngor, datblygu offerynnau a mecanweithiau cofnodi i helpu staff Llywodraeth Cymru i ystyried yr CCUHP yn eu gwaith.

Maent yn gyfrifol am:

- Gynyddu dealltwriaeth o'r CCUHP, ac o'r Mesur a'i ddyletswyddau;
- Gweithredu'r Mesur a'r Cynllun Hawliau Plant;
- Comisiynu, cydgysylltu a chefnogi hyfforddiant ar gyfer staff;
- Cymryd samplau o benderfyniadau ynghylch datblygu polisi a deddfwriaeth, yn rhan o'r broses o fonitro a yw Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus;
- Casglu a dadansoddi data'n rheolaidd;
- Paratoi adroddiadau ar gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â'r ddyletswydd sylw dyledus bob 5 mlynedd o leiaf;
- Hwyluso'r Grŵp Llywio Gweithredu.

Nodir sut y byddant yn cyflawni peth o hyn yn nes ymlaen yn y Cynllun Hawliau Plant hwn.

Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r CCUHP ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant.[8] Y Tîm Gweithredu, ar y cyd ag eraill, sy'n arwain y gwaith hwn ar ran y Gweinidogion. Fodd bynnag, mae sefydliadau eraill hefyd wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o'r CCUHP, ac i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ohono, megis y Comisiynydd Plant ac Achub y Plant, ac mae angen i ni barhau i gydweithio i gael yr effaith fwyaf.

<u>Cyfrifoldebau a Rolau Staff Llywodraeth Cymru</u>

Mae'r dyletswyddau yn y Mesur yn berthnasol i faes pob Gweinidog, ac fel y nodwyd eisoes, mae gan staff Llywodraeth Cymru ran bwysig iawn yn y gwaith o ddatblygu polisi a deddfwriaeth ar ran Gweinidogion.

Mae'n bwysig iawn eu bod yn ystyried yr CCUHP yn briodol cyn dechrau datblygu polisi neu ddeddfwriaeth, a'u bod yn parhau i wneud hynny drwy gydol y broses. Rhaid iddynt fod yn glir ynghylch sut y rhoddwyd sylw dyledus cyn rhoi dewisiadau a chyngor i Weinidogion, a rhaid i hynny gael ei ddangos yn glir i Weinidogion.

O ganlyniad, bydd adrannau unigol a'u staff yn gyfrifol am fynd drwy broses o roi sylw dyledus i'r CCUHP pa bryd bynnag y byddant yn datblygu polisi neu ddeddfwriaeth.

Bydd staff sy'n gweithio ar ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r CCUHP yn achos pob darn unigol o bolisi a deddfwriaeth. Bydd y staff hyn yn cael hyfforddiant i'w helpu i ddeall a chyflawni eu rôl. Byddant yn:

- Cynnal asesiadau o bolisi a deddfwriaeth arfaethedig, gan ddefnyddio proses Chwe Cham at Sylw Dyledus Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys Offeryn Asesu Effaith yr CCUHP (ceir mwy o fanylion isod).
- Ystyried y dewisiadau ar gyfer polisi a deddfwriaeth, ac yn rhoi dewisiadau a chyngor yn eu cylch i Weinidogion.
- Sicrhau bod cofnodion o'r broses asesu a phenderfynu, sy'n dangos eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus, yn cael eu cadw ar ffeil.

<u>Cyfrifoldebau a Rolau Penaethiaid yr Is-adrannau yn Adrannau Llywodraeth Cymru</u>

Byddant yn gyfrifol am sicrhau bod y dewisiadau a'r cyngor a roddir gan eu staff i Weinidogion, er mwyn i Weinidogion wneud penderfyniadau, o ansawdd da ac wedi rhoi sylw dyledus i'r CCUHP. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau eu bod hwy a'r staff i gyd yn meddu ar ddigon o wybodaeth o'r CCUHP a'r Mesur, ac o oblygiadau'r ddau i'w gwaith.

<u>Pobl eraill y tu allan i Lywodraeth Cymru</u>

Mae barn rhanddeiliaid ar lwyddiant y broses o gydymffurfio â'r Mesur yn bwysig iawn i ni. Roeddem yn gwerthfawrogi'n fawr ansawdd yr adborth a gawsom wrth

[8] Adran 5, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

ymgynghori â rhanddeiliaid ar y Cynllun Hawliau Plant drafft ac rydym wedi ystyried nifer o'r sylwadau. Rydym wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc ynglŷn â'r Cynllun a byddant yn parhau i gael eu cynnwys wrth i'r Mesur cyfan gael ei weithredu yn y dyfodol.

Mae staff Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag arbenigwyr ar hawliau plant a'r CCUHP. Mae hyn yn cynnwys y Grŵp Cymorth Gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn sy'n rhoi cymorth a chyngor i Lywodraeth Cymru gyflawni'r camau yng Nghynllun Gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn[9]. Cynllun Gweithredu treigl 5 mlynedd i Gymru yw hwn, sy'n nodi'n blaenoriaethau a'n camau allweddol mewn ymateb i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2008. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynnwys y camau a amlinellir yn y ddogfen hon i weithredu'r Mesur.

Mae staff hefyd yn sylwedyddion yng Ngrŵp Monitro Anllywodraethol yr CCUHP[10] sy'n cyfrannu at fonitro sut y mae Cymru'n cydymffurfio â gweithredu'r CCUHP. Gall y grŵp hwn, a sefydliadau eraill sy'n helpu i weithredu'r CCUHP, roi argymhellion i ni ynglŷn â ffyrdd o wneud pethau'n wahanol neu'n well.

**<u>Sut y gwnawn yn siŵr ein bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP?</u>**

Ein nod yw sicrhau diwylliant yn Llywodraeth Cymru lle y mae Gweinidogion a staff yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o hawliau plant, ac yn mynd ati'n fwriadus i'w hystyried yn eu holl waith.

Rydym wedi ymrwymo i addysgu a hyfforddi staff Llywodraeth Cymru, am y bydd hynny'n rhan bwysig iawn o gyrraedd y nod. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP yn ddyletswydd newydd a bydd angen i staff Llywodraeth Cymru gael proses ymarferol hefyd y gallant ei dilyn yn eu gwaith i'w galluogi i roi sylw dyledus i'r CCUHP cyn rhoi dewisiadau a chyngor i Weinidogion.

Nid yw hyn yn golygu mai dim ond mater o "fynd drwy'r broses" neu o "dicio'r blychau" yw'r ddyletswydd sylw dyledus yn ein golwg. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i ddod o hyd i ffyrdd o gyflawni hawliau plant drwy'r Mesur a'r Cynllun hwn. Byddant yn disgwyl bod eu staff wedi rhoi sylw dyledus i'r CCUHP wrth ddatblygu'r polisïau a'r ddeddfwriaeth a gyflwynir i Weinidogion benderfynu yn eu cylch.

Fodd bynnag, mae angen i ni gydnabod y bydd cyrraedd ein nod o sicrhau ymwybyddiaeth lawn o hawliau plant ar draws Llywodraeth Cymru, ac ystyriaeth fwriadus ohonynt yn ein gwaith, yn anos o lawer os na chaiff staff ganllaw ymarferol i'w ddilyn, yn enwedig tra bod y ddyletswydd yn newydd iawn. Bydd yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon yn datblygu dros amser nes bod ganddynt ddealltwriaeth lawnach o'r ddyletswydd sylw dyledus.

---

9 http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/gettingitright2009/?lang=cy

10 http://www.childrensrightswales.org.uk/uncrc-monitoring-group.aspx

Wrth ddylunio'n proses rydym wedi ystyried penderfyniadau a wnaethpwyd gan y llysoedd ynghylch ystyr "sylw dyledus" yng nghyd-destun dyletswyddau cydraddoldeb.[11]

Y canlyniad yw'r Chwe Cham at Sylw Dyledus, sy'n cynnwys Offeryn Asesu Effaith yr CCUHP, a gellir eu gweld drwy Adran 4, sleid 5 o'n cwrs e-ddysgu.[12]

Chwe Cham at Sylw Dyledus

O dan ein proses, bydd angen i staff ddilyn y camau hyn:




- Cam 1 – Beth yw'r darn o waith?

  Bydd angen i staff nodi a ydynt yn gweithio ar bolisi neu ddeddfwriaeth newydd arfaethedig, neu'n newid neu'n adolygu polisi sydd eisoes mewn bod. Os ydynt, bydd y ddyletswydd sylw dyledus yn berthnasol.

- Cam 2 – Pa hawliau CCUHP y mae'r gwaith yn helpu i'w gwireddu neu i'w heffeithio?

  Dyma pryd y bydd staff yn defnyddio Offeryn Asesu Effaith yr CCUHP. Bydd hyn yn eu helpu i nodi pa hawliau CCUHP sy'n berthnasol i'w darn o waith. Dros amser, bwriadwn ddatblygu mwy o ganllawiau ynglŷn ag ystyr hawliau penodol. Gobeithiwn wneud hynny gan ddefnyddio arbenigwyr allanol.

- Cam 3 – Parchu hawliau a rhoi mwy o effaith i'r CCUHP

  Pan fydd staff wedi nodi hawliau perthnasol, bydd angen iddynt gadarnhau nad yw'r polisi neu'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn torri unrhyw un o'r hawliau hynny. Yna bydd angen iddynt ystyried sut y gallai'r cynnig roi effaith bellach iddynt.

- Cam 4 – Pa gamau y gallai Gweinidogion Cymru eu cymryd nesaf?

[11] Yn benodol: Y Frenhines ar gais Baker ac Eraill *v* Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, [2008] EWCA Civ 141; Y Frenhines ar gais Brown *v* Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau [2008] EWHC 3158

[12] http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/uncrc/onlinecourse/?lang=cy

Os bydd staff wedi nodi y byddai hawl yn cael ei thorri gan y cynnig, bydd angen iddynt ystyried sut y gellid ei newid i atal hynny rhag digwydd.

Os byddant wedi nodi y gallai'r cynnig roi effaith bellach i hawl mewn ffordd benodol, bydd angen iddynt ystyried yr holl ffactorau eraill sy'n berthnasol. Bydd gwahanol ffactorau yn berthnasol i wahanol gynigion. Gallai enghreifftiau gynnwys cyfyngiadau amser neu adnoddau. Bydd angen ystyried dyletswyddau statudol eraill, megis dyletswyddau cydraddoldeb. Bydd angen i staff roi'r pwys sy'n briodol ar yr CCUHP a'r holl ffactorau perthnasol eraill.

- Cam 5 – Penderfyniad y Gweinidog

  Bydd staff yn rhoi dewisiadau a chyngor i Weinidogion ar y polisi neu'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Byddant yn paratoi'r cyngor hwn ar ôl rhoi sylw dyledus i'r CCUHP fel y nodwyd yn y camau uchod.

  Bydd Gweinidogion yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ac am roi sylw dyledus i'r CCUHP wrth wneud y penderfyniadau hynny. Bydd y dewisiadau a'r cyngor gan staff Llywodraeth Cymru yn eu helpu i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

- Cam 6 – Cadw Cofnodion

  Bydd cofnodion yn cael eu cadw o'r modd y cydymffurfiwyd â'r ddyletswydd sylw dyledus. Byddant yn cael eu defnyddio ar gyfer ein hadroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn bur aml, bydd polisïau a deddfwriaeth yn cael eu datblygu mewn sawl cam, a gall Gweinidogion wneud cyfres o benderfyniadau yn eu cylch. Bydd dyletswydd barhaus arnom i roi sylw dyledus i'r CCUHP drwy gydol y broses honno.

**<u>Sefydlu'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP yn nhrefniadau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu polisi a deddfwriaeth</u>**

Mae cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP wedi'i sefydlu'n gadarn yn ymyl dyletswyddau cyfreithiol eraill megis y ddyletswydd cydraddoldeb yn Neddf Cydraddoldeb 2010[13] a'n rhwymedigaethau o dan ein Cynllun Iaith Gymraeg a grëwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'n hanfodol fod y ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP yn ymwreiddio yn ymyl y trefniadau ehangach yn Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau bod y polisi a'r ddeddfwriaeth a ddatblygwn yn gyfreithlon, yn raenus, ac yn sicrhau canlyniadau da i bobl Cymru.

Weithiau gallwn newid ein trefniadau ehangach ar gyfer sicrhau bod ein gwaith yn gyfreithlon, yn raenus, ac yn sicrhau canlyniadau da i bobl Cymru. Fodd bynnag, byddem yn sicrhau bob tro fod cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP, ac â dyletswyddau cyfreithiol eraill, yn cael ei sefydlu yn ein trefniadau newydd.

[13] Adran 149, Deddf Cydraddoldeb 2010

O ran sefydlu'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP, mae nifer o bethau wedi'u trefnu. Maent yn cynnwys:

Cynefino â Llywodraeth Cymru

Mae codi ymwybyddiaeth o'r CCUHP a hyfforddiant arno bellach yn rhan o'r broses gynefino ar gyfer holl staff newydd Llywodraeth Cymru.

Codi ymwybyddiaeth

Mae adnodd yn ymwneud yn benodol â'r CCUHP ar gael ar y fewnrwyd ar gyfer cydweithwyr; mae'n cynnwys y dysgu ar-lein sydd ar gael, taflenni gwybodaeth Cwestiynau Cyffredin, holl ddogfennau'r ddeddfwriaeth, holl erthyglau'r 'Confensiwn', dolen at y cynllun Gwneud Pethau'n Iawn a dolenni at amrywiaeth o wefannau allanol ar hawliau. Mae ymgyrch bosteri wedi'i datblygu i dynnu sylw at yr amserlen i weithredu'r Mesur, yn ogystal â rhith-becynnau ar gyfer Penaethiaid holl Is-adrannau Llywodraeth Cymru. Hyrwyddwyd Diwrnod Byd-eang y Plant yn fewnol yr un pryd ag y bu'r Dirprwy Weinidog yn hyrwyddo'r e-ddysgu i bob aelod o'r staff.

Hyfforddiant

Mae ystod o hyfforddiant ar gael i staff Llywodraeth Cymru i roi gwybodaeth a dealltwriaeth iddynt o'r CCUHP ac i'w helpu i ddeall y broses y mae angen iddynt ei dilyn i gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus.

Mae pecyn gwybodaeth wedi'i roi i Benaethiaid holl Is-adrannau Llywodraeth Cymru. Mae'r pecyn yn cynnwys y Chwe Cham at Sylw Dyledus (sy'n cynnwys Offeryn Asesu Effaith yr CCUHP), taflenni gwybodaeth Cwestiynau Cyffredin, a dolen at yr hyfforddiant ar-lein. Disgwylir i Benaethiaid yr Is-adrannau hyrwyddo'r hyfforddiant i'r holl staff a sicrhau eu bod yn fodlon eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP wrth roi dewisiadau a chyngor i Weinidogion.

Mae hyfforddiant penodol mewnol arall wedi cynnwys cyfres o seminarau amser cinio i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff mewn sefyllfa fwy anffurfiol. At hynny mae cyflwyniadau ffurfiol ar y Mesur wedi'u rhoi i Adrannau Llywodraeth Cymru, a bydd y rhain yn parhau.

Hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff a dargedir

Rhwng nawr a Mai 1 2012, pan fydd y ddyletswydd sylw dyledus yn cychwyn, ac fel proses barhaus, bydd cyfres o sesiynau a dargedir ac a arweinir gan arbenigwyr yn cael ei chynnal gydag aelodau allweddol o staff sy'n ymwneud ag arwain gwaith i ddatblygu polisi a deddfwriaeth. Bydd y rhain yn cynnwys dadansoddi'n fanylach erthyglau a themâu'r CCUHP, dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau, a gofynion y ddyletswydd sylw dyledus.

Bydd hyfforddiant arbenigol yn cael ei ddarparu ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru yng Ngwanwyn 2012. Bydd hyn yn trafod dehongliadau rhyngwladol o'r hawliau yn yr CCUHP, ac yn ymdrin â Chwe Cham Llywodraeth Cymru at Sylw Dyledus ac Offeryn Asesu Effaith yr CCUHP.

Sesiynau Gwneud Pethau'n Iawn

Grŵp o blant a phobl ifanc yw *Gwneud Pethau'n Iawn* (*Turn on the Rights* gynt) sy'n cydweithio ag oedolion i'w helpu i ddeall yr CCUHP a'i berthynas â'u maes gwaith hwy.

Defnyddiwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth i dynnu sylw at y Mesur a'r ddyletswydd sylw dyledus. Roedd y rhain yn rymus iawn pan oedd y plant a'r bobl ifanc yn cyflwyno ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.

Hyfforddiant ar-lein ar gyfer staff Llywodraeth Cymru

Mae dau offeryn hyfforddi ar-lein rhyngweithiol wedi'u datblygu.

Offeryn hyfforddi deng munud yw'r cyntaf, sy'n rhoi cyflwyniad cyflym i'r CCUHP a'r broses o'i sefydlu yng nghyfraith ddomestig Cymru. Mae hyn ar gael i holl staff Llywodraeth Cymru.

Mae'r ail yn fanylach ac yn cynnwys trosolwg o'r CCUHP a'i hanes, ynghyd â dadansoddiad manwl o'r broses o gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus newydd.

Diben yr hyfforddiant yw sicrhau bod staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar bolisi neu ddeddfwriaeth yn llwyr ddeall:

- sut y gall eu gwaith effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar blant
- perthynas eu gwaith â'r CCUHP, a sut y gall roi mwy o effaith i'r hawliau a'r rhwymedigaethau ynddo
- pwysigrwydd cadarnhau nad yw hawliau'r CCUHP yn cael eu torri
- sut i sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi effaith i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a rhoi sylw i ystyriaethau eraill

Byddwn yn ystyried ffyrdd o hysbysu staff Llywodraeth Cymru am ddatblygiadau pan fyddant yn digwydd.

## Adrodd ar ein cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd sylw dyledus

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad erbyn 31 Ionawr 2013 yn egluro sut y maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bydd ar gael i'r cyhoedd hefyd. Yn dilyn hynny, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar gydymffurfiaeth bob pum mlynedd.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau i alw Gweinidogion Cymru ger ei fron i'w holi am yr adroddiad. At hynny gall y Cynulliad ofyn i Weinidogion unrhyw bryd am wybodaeth am eu cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd sylw dyledus.

Fodd bynnag, y Cynulliad fydd yn penderfynu a ddylid defnyddio'r pwerau hynny a phryd y dylid eu defnyddio. Cynllun Gweinidogion Cymru ydyw ac ni all Gweinidogion Cymru wneud ymrwymiadau ar ran y Cynulliad.

Bydd Cynllun newydd yn cael ei baratoi ar gyfer Mai 2014, a fydd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd ehangach i roi sylw dyledus i'r CCUHP yn ein holl waith. Bydd y Cynllun hwnnw'n ymdrin â'r trefniadau ar gyfer adrodd ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd ehangach, ac yn nodi amlder cyhoeddi'r adroddiadau hynny.

O ganlyniad i gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus a gweithredu'r Cynllun hwn, mae'n bosibl y bydd Gweinidogion yn nodi camau eraill i Lywodraeth Cymru eu cymryd. Bydd modd eu trafod â'r Grŵp Cymorth Gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn a'u cynnwys yn y pen draw yn y Cynllun Gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn ac yn adroddiad y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig.

Gobeithiwn yn fawr y bydd rhoi sylw dyledus i'r CCUHP wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael effaith gadarnhaol yn y tymor hwy ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc ac y bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn y Monitor Lles Plant.[14]

**Cynigion ar gyfer ymgynghori ynghylch cymhwyso'r Mesur i rai 18-24 oed**

Mae Adran 7 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried a ellir cymhwyso'r hawliau yn yr CCUHP a'i brotocolau dewisol, a'r darpariaethau yn y Mesur, i bobl ifanc 18-24 oed. Os felly, rhaid ystyried sut, hy gyda newidiadau a/neu ddiwygiadau *etc*.

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ymgynghori er mwyn ystyried a ddylid gwneud eu dull seiliedig ar hawliau yng nghyswllt pobl ifanc 18-24 oed yn rhan o'r gyfraith yng Nghymru, a sut y gellid gwneud hynny.

Bydd proses ymgynghori'n cychwyn yng Ngwanwyn/Haf 2012. Bydd yn cynnwys cynnal gweithdai â phobl ifanc a rhanddeiliaid perthnasol, cyn mynd ati i baratoi dogfen a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

**Newid y Cynllun hwn a Chynlluniau'r Dyfodol**

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnwys ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc, Comisiynydd Plant Cymru ac unigolion priodol eraill wrth baratoi Cynllun newydd neu wrth newid yr un presennol[15]. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn cyhoeddi Cynllun newydd neu Gynllun diwygiedig.[16]

---

14 http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/cypwellbeingmonitor/?lang=cy

15 Adrannau 3(4) a 3(5), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

16 Adran 3(6), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Mae hyd at 400 o blant a phobl ifanc wedi'u cynnwys yn natblygiad y Cynllun hwn a bydd yr wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yn cael ei defnyddio ar gyfer gwaith pellach yn ymwneud â hybu gwybodaeth a dealltwriaeth, egluro'u perthnasoedd â Gweinidogion a sefydlu arferion da. Mae'r wybodaeth werthfawr hon wedi'i choladu mewn dogfen gryno a diolchwn i'r plant a'r bobl ifanc am roi eu hamser i gymryd rhan.

Cafwyd adborth gan 26 o gyrff eraill ar y Cynllun Plant drafft a fu'n destun ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 7 Tachwedd 2011 a 30 Ionawr 2012. Cafwyd rhai ymatebion gan grwpiau a rhai gan unigolion. Mae nifer o'r sylwadau a gafwyd yn yr ymarfer ymgynghori hwn wedi'u derbyn, fel y dengys y ddogfen ddiwygiedig hon. Mae dogfen gryno wedi'i pharatoi sy'n amlinellu prif themâu'r ymgynghoriad ac unwaith eto diolchwn i'r cyfranwyr am neilltuo amser i ymateb.

At hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd â chynrychiolwyr o swyddfa'r Comisiynydd Plant a rhanddeiliaid allweddol eraill – y Grŵp Cymorth Gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn a'r Ddraig Ffynci – i'n helpu i ddatblygu'r Cynllun hwn ar sylfaen gadarn, ac i gael trafodaeth a chyngor. Mae'r drafodaeth honno'n parhau a chroesawn eu cyngor eto yn y dyfodol.

Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar [Dyddiad i'w fewnosod ar ôl cael cymeradwyaeth]

Byddwn yn bwrw ati i gynnwys plant a phobl ifanc, Comisiynydd Plant Cymru ac unigolion priodol eraill wrth baratoi Cynllun newydd ar gyfer Mai 2014, am y bydd yn rhaid i hwnnw hefyd nodi sut y byddwn yn cydymffurfio â'r ddyletswydd ehangach i roi sylw dyledus i'r CCUHP yn ein holl waith. Bydd hyn yn digwydd ar ôl i ni gyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar gydymffurfiaeth â'r Cynllun hwn. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad erbyn 31 Ionawr 2013 fan bellaf.[17]

Byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwn o'r Cynllun hwn wrth baratoi ein Cynllun nesaf.

Yn unol â'r Mesur, mae'n ofynnol i ni roi sylw i ddogfennau penodol wrth baratoi Cynllun newydd neu wrth newid un cyfredol.[18] Mae'r rhain yn cynnwys barn Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn am y cynnydd a wnaed gan y DU o ran gweithredu'r CCUHP. Cyfeirir at y rhain yn aml fel "Sylwadau Terfynol" y Pwyllgor.[19]

Cyhoeddwyd sylwadau terfynol diwethaf y Pwyllgor ynglŷn â'r DU yn 2008[20] a rhoesom sylw iddynt wrth baratoi'r Cynllun hwn. Bydd y gyfres nesaf o sylwadau

---

[17] Adran 4(1), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

[18] Adran 3(1), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

[19] Y teitl ffurfiol yw Ystyried Adroddiadau a gyflwynwyd gan Bartïon Gwladwriaethau dan erthygl 44 o'r CCUHP: Sylwadau Terfynol.

[20] http://www2.ohchr.org/english/bodies/crc/docs/AdvanceVersions/CRC.C.GBR.CO.4.pdf

terfynol gan y Pwyllgor yn cael ei chyhoeddi ar ôl i'r DU gyflwyno'i hadroddiad nesaf i'r Pwyllgor yn Ionawr 2014 ar ei chynnydd o ran gweithredu'r CCUHP.

Bydd angen i ni ystyried a ddylem newid y Cynllun a fydd gennym bryd hynny yng ngoleuni'r sylwadau hynny. Mae hyn yn ofyniad yn y Mesur.[21]

Wrth baratoi'r Cynllun hwn rhoesom sylw i Sylwadau Cyffredinol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar ddehongli hawliau'r CCUHP.[22] Byddwn yn troi atynt eto wrth i ni ddatblygu arweiniad pellach ar gyfer staff Llywodraeth Cymru ar ystyr yr hawliau yn yr CCUHP.

Mae'r Mesur yn caniatáu i ni roi sylw – wrth baratoi Cynllun newydd neu newid un cyfredol – i ddogfennau a materion eraill a ystyriwn yn berthnasol.[23] Mae hyn yn gategori eang, a allai gynnwys unrhyw ddogfen os yw ei phwnc yn berthnasol i drefniadau Gweinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r CCUHP. Er enghraifft, gallai gynnwys adroddiadau gan Gomisiynydd Plant Cymru neu Estyn.

Croesawn awgrymiadau unrhyw bryd gan unrhyw un ynghylch yr hyn y dylem ei ystyried wrth baratoi ein Cynllun nesaf. Bydd yn ddefnyddiol fel erioed os gall yr unigolyn sy'n cyflwyno'r awgrym egluro yn ymarferol sut yn ei farn ef y dylid newid ein trefniadau i roi sylw dyledus i'r CCUHP yng ngoleuni dogfen benodol neu fater arall.

**Pwerau Gweinidogion Cymru i newid deddfwriaeth**

Mae'r Mesur yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion yn newid deddfwriaeth gyfredol os penderfynant, o ganlyniad i un o'u hadroddiadau ar gydymffurfiaeth, y byddai'n ddymunol gwneud hynny i roi mwy o effaith i'r CCUHP.[24] Gallant wneud newidiadau os yw'r newidiadau hynny yn rhai y mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i'w gwneud. Cyn gwneud y gorchmynion hyn rhaid iddynt gynnal ymgynghoriad a chael cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.[25]

Byddant yn ystyried a ddylid defnyddio'r pŵer hwn ar ôl iddynt gyhoeddi eu hadroddiad cyntaf ar gydymffurfiaeth.

**Beth y gall plant neu eu cynrychiolwyr ei wneud os nad ydynt yn credu bod Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw dyledus i'r CCUHP?**

Gall plant, yn unigol neu mewn grŵp:

---

21 Adran 2(4), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

22 http://www2.ohchr.org/english/bodies/crc/comments.htm

23 Adran 3(2), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

24 Adran 6(2), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

25 Adran 6(4), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

- Gysylltu â Llywodraeth Cymru i godi'r mater. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau proses gwyno seml, gyflym ac effeithiol. Bydd hyn yn golygu llunio fersiwn gryno o'r broses a fydd yn glir i bawb, gobeithio. Yn y cyfamser mae gennym God Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael drwy'r ddolen isod:

  http://wales.gov.uk/contact_us/complaints1/complaintspublications/codeofpractice/;jsessionid=RJmqT5LMsQkdBZvQ15vBp0MRhppCkPPwtPpT8pqZyCLwS5WVgJyB!823856201?lang=cy

- Cysylltu â'u Haelod Cynulliad. Gall Aelodau'r Cynulliad godi materion sy'n effeithio ar blant gyda Llywodraeth Cymru neu yn y Cynulliad. Gallwch ddod o hyd i'ch Aelodau Cynulliad drwy'r ddolen hon:

  http://www.senedd.assemblywales.org/mgMemberIndex.aspx

- Anfon deiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd deg neu ragor o bobl wedi'i llofnodi. Gallai plant ddefnyddio hyn i dynnu sylw'r Cynulliad at ddeddfwriaeth neu bolisi lle nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw dyledus i'r CCUHP yn eu barn hwy. Mae gan y Cynulliad bwerau i alw Gweinidogion Llywodraeth Cymru ger ei fron i'w holi sut y rhoddwyd sylw dyledus i'r CCUHP wrth ddatblygu darnau penodol o bolisi neu ddeddfwriaeth. Dyma ddolen at ragor o wybodaeth am ddeisebau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

  http://www.assemblywales.org/gethome/e-petitions.htm

- Cyflwyno cais i'r llys i ofyn i'r llys ddyfarnu a yw Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus. Gelwir hyn yn Adolygiad Barnwrol. Dylid cyflwyno ceisiadau am Adolygiad Barnwrol cyn gynted â phosibl – fel arfer, rhaid gwneud hynny cyn pen tri mis ar ôl i Weinidogion Cymru wneud eu penderfyniad. Weithiau bydd llys yn caniatáu i unigolyn gyflwyno cais yn hwyr os gall yr unigolyn ddangos bod ganddo reswm da iawn dros beidio â chyflwyno cais yn gynharach. Er bod gan blant bob hawl i wneud cais am Adolygiad Barnwrol, gobeithiem y gellid datrys y mater drwy'r trefniadau eraill a restrwyd eisoes. Dyna pam yr ydym yn ceisio sicrhau bod ein trefniadau i roi sylw dyledus, a'n gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, yn effeithiol. Fodd bynnag, os bydd plant yn dewis dilyn yr opsiwn hwn, gall y sefydliadau isod gynnig cyngor a chymorth.

  Isod ceir dolen i egluro mwy am Adolygiadau Barnwrol:

  http://www.judiciary.gov.uk/you-and-the-judiciary/judicial-review

  I geisio Adolygiad Barnwrol, byddai angen cyngor cyfreithiol arnoch. Ceir mwy o wybodaeth isod:

  http://www.direct.gov.uk/en/Governmentcitizensandrights/GettingLegalAdvice/index.htm

**Cymorth i blant sydd am gwyno am Weinidogion Cymru neu eu herio**

Pan fydd plant, yn unigol neu mewn grŵp, eisiau herio Gweinidogion am eu bod yn teimlo nad yw'r CCUHP wedi'i ystyried mewn polisi neu ddeddfwriaeth, a bod hynny'n effeithio arnynt, gallant gael cymorth gan:

- Unrhyw oedolyn y maent yn ymddiried ynddo ac sydd ag amser i'w helpu. Gallai fod yn berthynas, yn gyfaill neu'n weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy. Dylid ei ystyried yn eiriolwr dros blant.

- Ar lefel leol, mae nifer o ddarparwyr eiriolaeth yn bodoli ar hyn o bryd a allai roi cymorth a chyngor i blant a phobl ifanc. Yn gyffredinol mae'r rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ac eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc agored i niwed. Fodd bynnag, gallent helpu plant a phobl ifanc yn y categorïau hyn i herio penderfyniadau Gweinidogion. Defnyddiwch y ddolen isod i weld pa ddarparwyr eiriolaeth sydd ym mha ardal:

  http://meiccymru.org/professional/in-your-area

- CLIC – Dyma'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol ar gyfer Pobl Ifanc (11-25) yng Nghymru. Sianel ar-lein a pharth printiedig ydyw sy'n cynnig gwybodaeth, newyddion a chyngor i'r holl bobl ifanc 11-25 oed yng Nghymru ar ystod eang o bynciau a materion, gan gynnwys ble i gael cymorth yn lleol. Dyma ddolen at wefan CLIC:

  http://www.cliconline.co.uk/news/

- MEIC – Dyma'r llinell gymorth Eiriolaeth a Chyngor i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd eiriolwyr MEIC yn helpu plant i gael eu clywed gan eraill. Mae MEIC ar gael i roi cyngor a gwybodaeth i blant sydd am herio Gweinidogion Cymru. Gallant hyd yn oed gysylltu ag eraill ar ran plant. Dyma ddolen at wefan MEIC:

  http://www.meiccymru.org/.

- Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru bŵer i roi cyngor, cymorth a chynrychiolaeth i blant a allai fod am herio Gweinidogion Cymru. Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd Plant adolygu sut y mae gwaith Llywodraeth Cymru wedi effeithio ar blant yng Nghymru.[26] Byddai hynny'n cynnwys ystyried a yw Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus, ac effaith hynny ar blant yng Nghymru. Dyma ddolen at fanylion cyswllt swyddfeydd y Comisiynydd:

  http://www.childcom.org.uk/en/contact/

[26] Adran 72B, Deddf Safonau Gofal 2000

## CYDRADDOLDEB

Mae Erthygl 2 o'r CCUHP yn nodi bod yr CCUHP yn gymwys i bob plentyn yn gydradd waeth beth fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd; waeth beth a feddylia neu a ddywed; ac waeth pa fath o deulu y daw ohono. At hynny, mae Erthygl 23 yn rhoi i blant ag anableddau yr hawl i ofal arbennig a chymorth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

At hynny, wrth gyflawni eu gwaith, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i roi sylw dyledus i'r angen i:

(a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

(b) sicrhau mwy o gyfle cyfartal rhwng y gwahanol grwpiau o bobl y sonnir amdanynt yn y Ddeddf Cydraddoldeb – er enghraifft, rhwng pobl ag anabledd a phobl heb anabledd;

(c) hybu perthnasoedd da rhwng y gwahanol grwpiau o bobl y sonnir amdanynt yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd cydraddoldeb hon wedi'i sefydlu yn nhrefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu polisi a deddfwriaeth yn yr un modd â chydymffurfiaeth â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP. Bydd Llywodraeth Cymru yn asesu effaith ei pholisïau a'i deddfwriaeth arfaethedig ar gydraddoldeb.

Mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i Erthyglau 2 a 23 o'r CCUHP, a'r ddyletswydd cydraddoldeb, yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn ategu ei gilydd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ystyriaeth lawn a phriodol yn cael ei rhoi i gyflawni hawliau ar sail gydradd, ac i hawl plant ag anableddau i gael gofal arbennig a chymorth.

## RHESTR TERMAU

**Eiriolaeth** – Mae eiriolaeth yn ymwneud â siarad dros blant a phobl ifanc. Mae eiriolaeth yn ymwneud â galluogi plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu hawliau yn cael eu parchu a bod eu barn a'u dymuniadau'n cael eu clywed bob amser. Mae eiriolaeth yn ymwneud â chyflwyno barn, dymuniadau ac anghenion plant a phobl ifanc i lunwyr penderfyniadau, a'u helpu i fynd drwy'r system.

**Y Ddraig Ffynci** – Y Ddraig Ffynci yw Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru. Ei genhadaeth yw galluogi plant a phobl ifanc yng Nghymru i gael gwrandawiad gan y Llywodraeth ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau am bolisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**Mesurau Gweithredu Cyffredinol –** Mae'r term Mesurau Cyffredinol yn cyfeirio at y camau sylfaenol y gall gwladwriaethau eu cymryd i weithredu'r holl ddarpariaethau yn yr CCUHP.

Mae'r camau'n cynnwys deddfwriaeth, sefydlu cyrff cydgysylltu a monitro, casglu data, codi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant, monitro cyllidebau a datblygu a gweithredu polisïau, gwasanaethau a rhaglenni priodol.

Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i'r rhain ym mhob gwladwriaeth. Rhaid i wladwriaethau wneud popeth yn eu gallu i weithredu'r hawliau yn y Confensiwn.

**Gwneud Pethau'n Iawn** – Cynllun gweithredu treigl a ddatblygwyd ar gyfer Cymru er mwyn nodi camau a fydd yn helpu i weithredu'r CCUHP yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf.

**Deddfwriaeth –** Cyfreithiau

**Protocolau Dewisol** – Gelwir y rhain yn "Ddewisol" am fod y gwladwriaethau sydd wedi cytuno i gael eu rhwymo gan yr CCUHP yn gallu dewis cael eu rhwymo hefyd gan yr hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Protocolau. Mae'r cyntaf o'r rhain yn ymwneud â chynnwys plant mewn gwrthdrawiadau arfog, ac mae'r ail yn ymwneud â gwerthu plant, puteindra plant a phornograffi plant. Mae'r DU wedi cytuno i gael ei rhwymo gan y ddau.

**Polisi –** Cynllun neu ddull gweithredu y bwriedir iddo ddylanwadu ar benderfyniadau, gweithredoedd a materion eraill.

**Saith Nod Craidd –** Mae ein saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc yn crynhoi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac yn sail i benderfyniadau ar flaenoriaethau ac amcanion yn genedlaethol. Dylent hefyd fod yn sail i benderfyniadau ar strategaeth a'r gwasanaethau a ddarperir yn lleol. Y saith nod craidd yw fod pob plentyn a pherson ifanc:

1. yn cael dechrau teg mewn bywyd
2. yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
3. yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac yn byw heb gael eu cam-drin, eu herlid na'u hecsbloetio
4. yn cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
5. yn cael gwrandawiad, eu trin â pharch, a chydnabyddiaeth i'w hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol
6. yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
7. yn osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

**Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig –** Sefydlwyd y Pwyllgor dan erthygl 43(1) o'r Confensiwn er mwyn archwilio cynnydd Partïon Gwladwriaethau tuag at ei weithredu. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys deg arbenigwr yn y meysydd a gwmpasir gan y Confensiwn, a chânt eu hethol i'r Pwyllgor gan y Gwladwriaethau sy'n rhan o'r Confensiwn.

**CCUHP** – **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.** Confensiwn Rhyngwladol yw hwn a ddatblygwyd ac a gytunwyd gan y Cenhedloedd Unedig. Mae 190 allan o 192 o wladwriaethau wedi'i gadarnhau, felly mae'n bwysig iawn yn rhyngwladol. Mae ganddo ddau Brotocol Dewisol sydd hefyd wedi'u cadarnhau gan

y DU. Yn y confensiwn a'r ddau brotocol ceir tua 58 o hawliau plant a rhwymedigaethau a osodir ar Lywodraeth ac eraill. Mae'n cydnabod datblygiad plant a'u hagoredrwydd i niwed, ac yn gosod rhwymedigaethau ar wladwriaethau a'u hasiantau i alluogi plant i wireddu eu hawliau.